

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 – 6)

CLA(5)–03–18 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir
Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

2.1 SL(5)163 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2017

2.2 SL(5)164 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017

2.3 SL(5)169 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.4 SL(5)167 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

2.5 SL(5)168 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio i Atodlen 5) Rheoliadau 2018



2.6 SL(5)171 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

2.7 SL(5)172 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

3.1 SL(5)170 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

(Tudalennau 7 – 26)

CLA(5)–03–18 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–03–18 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–03–18 – Papur 4 – Adroddiad

4 Papurau i'w nodi

4.1 Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ynghylch: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(Tudalennau 27 – 31)

CLA(5)–03–18 – Papur 5 – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd

4.2 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Bil yr UE (Ymadael):

(Tudalennau 32 – 33)

CLA(5)–03–18 – Papur 6 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Bil yr UE (Ymadael):

4.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch: SL(5)150 Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

(Tudalen 34)

CLA(5)–03–18 – Papur 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet

4.4 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru:Gwelliannau i Fil Masnach y DU a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 35 – 39)

CLA(5)–03–18 – Papur 8 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru:Gwelliannau i Fil Masnach y DU a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru

4.5 Ail gyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar adael yr Undeb Ewropeaidd, 18 Ionawr 2018

(Tudalennau 40 – 41)

CLA(5)–03–18 – Papur 9 – Ail gyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar adael yr Undeb Ewropeaidd, 18 Ionawr 2018

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6 Nodyn cyngor cyfreithiol: ystyried is-ddeddfwriaeth heblaw offerynnau statudol

(Tudalennau 42 – 45)

CLA(5)–03–18 – Papur 10 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

7 Y Pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth

(Tudalennau 46 – 74)

CLA(5)–03–18 – Papur 11 – Papur – y wybodaeth ddiweddaraf

CLA(5)–03–18 – Papur 12 – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

CLA(5)–03–18 – Papur 13 – Briff ymchwil

CLA(5)–03–18 – Papur 14 – Sabwyntiau'r Pwyllgor

CLA(5)–03–18 – Papur 15 – Cyngor cyfreithiol

8 SICM(5)2 – Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017: Adroddiad Drafft

(Tudalennau 75 – 77)

CLA(5)–03–18 – Papur 16 – Adroddiad drafft

**9 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru):
Adroddiad Drafft**

(Tudalennau 78 – 96)

CLA(5)-03-18 – Papur 17 – Adroddiad Drafft

10 Llais Cryfach i Gymru: Adroddiad Drafft

(Tudalennau 97 – 161)

CLA(5)-03-18 – Papur 18 – Papur – y wybodaeth ddiweddaraf

CLA(5)-03-18 – Papur 19 – Adroddiad drafft

Dyddiad y cyfarfod nesaf

29 Ionawr 2018

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir Eitem 2

22 Ionawr 2018

SL(5)163 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru)

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliad 2(2) yn diwygio rheoliad 37A(1) o'r Rheoliadau Adeiladu. Mae rheoliad 37A o'r Rheoliadau Adeiladu yn gymwys pan fo gwaith adeiladu yn cynnwys codi neu newid defnydd materol o'r mathau o adeiladau a restrir ym mharagraff (1). Pan fo'r rheoliad hwnnw'n gymwys, rhaid darparu system atal tân awtomatig i'r adeiladau hynny.

Mae'r mathau o adeiladau y mae angen rhoi ynddynt system atal tân awtomatig yn cynnwys ystafelloedd at ddibenion preswyl heblaw'r rhai a restrir fel eithriadau. Roedd hostelau wedi'u heithrio o'r gofyniad yn flaenorol. Effaith y gwelliant yn rheoliad 2(2) yw bod yn rhaid i systemau atal tân awtomatig gael eu darparu yn awr mewn ystafelloedd hostelau, ac eithrio'r ystafelloedd hynny sy'n darparu llety dros dro i'r rhai sy'n preswyl fel arfer mewn man arall.

Mae Rheoliad 2(3) yn diweddarau'r rhestr o gynlluniau person cymwys sy'n ymddangos yn Atodlen 3 y Rheoliadau Adeiladu (cynlluniau hunan-ardystio ac eithriadau rhag gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu osod cynlluniau llawn). Mae cynlluniau person cymwys yn gynlluniau y gall gosodwyr gofrestru â nhw i hunan-ardystio bod eu gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

Deddf Wreiddiol: Deddf Adeiladu 1984

Fe'u gwnaed ar: 12 Rhagfyr 2017

Fe'u gosodwyd ar: 15 Rhagfyr 2017

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2).



SL(5)164 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n disodli'r system a sefydlwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae adran 52 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru (yn gweithredu fel rheoleiddiwr y gwasanaeth) i roi hysbysiad o gosb i unigolyn yn lle dwyn achos am drosedd, ond dim ond mewn perthynas â'r troseddau hynny a ragnodir mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r troseddau y gellir eu trin trwy hysbysiad cosb.

Deddf Wreiddiol: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016

Fe'u gwnaed ar: 14 Rhagfyr 2017

Fe'u gosodwyd ar: 18 Rhagfyr 2017

Yn dod i rym ar: 2 Ebrill 2018

SL(5) 169 – Teitl yr OS

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer amryw faterion sy'n ymwneud â gweinyddu treth trafodiadau tir.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i Awdurdod Refeniw Cymru ("ACC") ddyroddi tystysgrif ar ôl derbyn ffurflen trafodiadau tir a materion gweinyddol eraill sy'n ymwneud â'r dystysgrif.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn rhagnodi tystiolaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno i'r WRA lle mae rhyddhad yn cael ei hawlio o dan Atodlen 11 Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn achos rhai trafodiadau tir sy'n gysylltiedig â bondiau buddsoddi cyllid amgen.

Deddf Wreiddiol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig 2017



Fe'u gwnaed ar: 4 Ionawr 2018

Fe'u gosodwyd ar: 8 Ionawr 2018

Yn dod i rym ar: 2 Ebrill 2018

SL(5)167 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swm y rhent perthnasol o dan baragraff 36(1)(b) o Atodlen 6 (Prydlesi) i Dreth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Deddf LTTA) at ddibenion diffinio "y swm penodedig" ym mharagraffau 34 a 35 o'r Atodlen honno. Y swm a bennir yw £9,000.

Mae Atodlen 6 i'r Ddeddf LTTA yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf mewn perthynas â phrydlesi. Mae Rhan 5 o Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch swm y dreth sy'n daladwy ar drafodiadau prydles. Mae paragraff 33 o Atodlen 6 yn cadarnhau bod y dreth a godir o dan yr Atodlen hon yn ychwanegol i'r dreth a gyfrifir o dan y darpariaethau eraill; mae paragraff 34 yn ddarpariaeth gwrthweithio osgoi a gynlluniwyd i atal camdriniaeth bosibl mewn perthynas â thrafodiadau prydles. Mae paragraff 35 yn darparu ar gyfer ystyriaeth heblaw rhent am brydles gymysg. Mae paragraff 36 yn diffinio "y rhent perthnasol", "y swm penodedig" ac "y rhent blynyddol". Yn LTT dim ond rhent a dalwyd am eiddo dibreswyl sy'n cael ei drethu o dan y rheolau hyn. Mae rhenti a dalwyd o dan brydlesi preswyl y tu allan i gwmpas y dreth.

Deddf Wreiddiol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig 2017

Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi

Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi

Yn dod i rym ar: heb ei nodi



SL(5)168 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygiad i Atodlen 5) Rheoliadau 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("yr LTTA") i ymestyn cwmpas yr eithriadau o'r cyfraddau sy'n gymwys i drafodiad cyfraddau uwch.

Mae Atodlen 5 (Trafodiadau Eiddo Preswyl Cyfraddau Uwch) i'r LTTA yn darparu'r rheolau sy'n nodi pan fo caffael budd mawr (neu fudd a ystyrir yn fudd mawr) yn drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch. Mae'r gwelliant technegol i Atodlen 5 a wneir gan y Rheoliadau hyn yn darparu, pan fo parau priod (yn cynnwys personau mewn partneriaeth sifil a phartneriaid sifil) yn caffael buddiannau newydd neu ychwanegol yn eu prif breswylfa bresennol, nid yw'r trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch hyd yn oed pan nad oedd gan un o'r pâr priod fudd buddiol yn y brif breswylfa honno yn flaenorol. Mae'r newid technegol hwn er mwyn sicrhau bod y rheolau cyfraddau uwch yn cael eu cymhwyso'n gyson i barau priod ac o fewn Atodlen 5.

Deddf Wreiddiol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig 2017

Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi

Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi

Yn dod i rym ar: heb ei nodi

SL(5)171 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r gyfradd safonol gyntaf, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi. Bydd y cyfraddau'n berthnasol i waredu trethadwy a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018. Mae Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn nodi beth yw gwarediad trethadwy.



Y gyfradd safonol fydd £88.95, y gyfradd is fydd £2.80 a'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi fydd £133.45.

Yn dilyn gosod y cyfraddau treth yn y Rheoliadau hyn, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid cyfraddau yn y dyfodol mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi fydd yn dod i rym ar unwaith, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol dros dro y darperir ar ei chyfer yn adran 95 y Ddeddf.

Deddf Wreiddiol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig 2017

Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi

Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi

Yn dod i rym ar: heb ei nodi

SL(5)172 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018

Gweithdrefn: Gadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â chyflwyno treth trafodiadau tir ("LTT") yng Nghymru gan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("y Ddeddf LTTA"). Mae'r darpariaethau'n sicrhau bod trafodiadau sy'n digwydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 yn derbyn triniaeth sy'n gyson, gan olygu na chaiff trafodiadau eu trethu ddwywaith o dan y LTT a Threth Tir y Dreth Stamp ("SDLT"), neu'n peidio â chael eu trethi o gwbl.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn sicrhau bod trefniadau sy'n cychwyn cyn 1 Ebrill 2018 ac yr hawliwyd rhyddhadau penodol (sy'n bodoli yn y ddwy gyfundrefn) ar eu cyfer yn parhau i fod yn destun rhyddhad o dan y TTL (yn amodol ar fodloni rhai amodau). Ymhellach, bydd y Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer rheolau trosiannol at ddibenion penderfynu a yw trafodiad a gwblhawyd ar neu cyn 26 Tachwedd 2018 yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch lle mae prif breswylfa unigolyn yn cael ei ddisodli.

Deddf Wreiddiol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig 2017

Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi



Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi

Yn dod i rym ar: heb ei nodi



Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under section 25(1) of the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 No. (W.)

**LAND TRANSACTION TAX,
WALES**

**The Land Transaction Tax (Tax
Bands and Tax Rates) (Wales)
Regulations 2018**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations specify the first tax bands and percentage tax rates for land transaction tax, which is introduced by the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017 (“the LTT Act”).

The tax bands and percentage tax rates in these Regulations have effect in relation to chargeable transactions with an effective date on or after 1 April 2018.

Separate tax bands and percentage tax rates apply to:

- Residential property transactions (*Table 1*);
- Higher rates residential property transactions (*Table 2*);
- Non-residential property transactions (*Table 3*); and
- Chargeable consideration which consists of rent (and therefore which is only relevant in the case of leases) (*Table 4*).

Tax is to be calculated in accordance with sections 27 and 28 of the LTT Act except where the chargeable consideration consists of rent. In these cases, tax is to be calculated in accordance with Part 5 of Schedule 6 to the LTT Act.

By virtue of section 24(8) of the LTT Act, transactions involving a mixture of residential and non-residential property are to be treated as non-residential property transactions (and the tax bands and percentage tax rates in Table 3 apply).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under section 25(1) of the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 No. (W.)

**LAND TRANSACTION TAX,
WALES**

**The Land Transaction Tax (Tax
Bands and Tax Rates) (Wales)
Regulations 2018**

Made ***

Coming into force ***

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 24(1) of, and paragraph 28(1) of Schedule 6 to, the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017(1).

In accordance with section 25(1) of that Act, a draft of these Regulations was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Land Transaction Tax (Tax Bands and Tax Rates) (Wales) Regulations 2018.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2018.

(1) 2017 anaw 1.

Application

2. These Regulations have effect in relation to any chargeable transaction⁽¹⁾ with an effective date on or after 1 April 2018.

Tax bands and percentage tax rates

3. The Schedule to these Regulations specifies the tax bands and percentage tax rates for the purposes of section 24(1) of, and paragraph 28(1) of Schedule 6 to, the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017—

- (a) Table 1 specifies the tax bands and percentage tax rates for each band for residential property transactions;
- (b) Table 2 specifies the tax bands and percentage tax rates for each band for higher rates residential property transactions;
- (c) Table 3 specifies the tax bands and percentage tax rates for each band for non-residential property transactions; and
- (d) Table 4 specifies the tax bands and percentage tax rates for each band for transactions where the chargeable consideration consists of rent.

Name

Cabinet Secretary for Finance, one of the Welsh Ministers

Date

(1) See section 17 of the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017 for the definition of “chargeable transaction”.

SCHEDULE Regulation 3

Table 1: Residential property transactions

<i>Tax band</i>	<i>Relevant consideration</i>	<i>Percentage tax rate</i>
Zero rate band	Not more than £180,000	0%
First tax band	More than £180,000 but not more than £250,000	3.5%
Second tax band	More than £250,000 but not more than £400,000	5%
Third tax band	More than £400,000 but not more than £750,000	7.5%
Fourth tax band	More than £750,000 but not more than £1,500,000	10%
Fifth tax band	More than £1,500,000	12%

Table 2: Higher rates residential property transactions

<i>Tax band</i>	<i>Relevant consideration</i>	<i>Percentage tax rate</i>
First tax band	Not more than £180,000	3%
Second tax band	More than £180,000 but not more than £250,000	6.5%
Third tax band	More than £250,000 but not more than £400,000	8%
Fourth tax band	More than £400,000 but not more than £750,000	10.5%
Fifth tax band	More than £750,000 but not more than £1,500,000	13%
Sixth tax band	More than £1,500,000	15%

Table 3: Non-residential property transactions

<i>Tax band</i>	<i>Relevant consideration</i>	<i>Percentage tax rate</i>
Zero rate band	Not more than £150,000	0%
First tax band	More than £150,000 but not more than £250,000	1%
Second tax band	More than £250,000 but not more than £1,000,000	5%
Third tax band	More than £1,000,000	6%

Table 4: Chargeable consideration which consists of rent

<i>Tax band</i>	<i>Relevant consideration</i>	<i>Percentage tax rate</i>
NRL zero rate band	Not more than £150,000	0%
First tax band	More than £150,000 but not more than £2,000,000	1%
Second tax band	More than £2,000,000	2%

Memorandwm Esboniadol i

Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa Cabinet Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
8 Ionawr 2018

1. Disgrifiad

- 1.1 Diben yr offeryn hwn yw dynodi'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer y dreth trafodiadau tir ("LTT"), a gyflwynir gan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf LTT").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

- 2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Adran 24(1) o Ddeddf LTT a pharagraff 28(1) o Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth i ddynodi bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar gyfer LTT.
- 3.2 Yn unol ag adran 25(1) o Ddeddf LTT, bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, bydd angen gweithredu unrhyw amrywiad i'r cyfraddau a'r bandiau a gynhwysir yn y rheoliadau hyn drwy reoliadau pellach, a fydd yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol amodol yn unol ag adran 25(2) o Ddeddf LTT.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

- 4.1 Bydd y rheoliadau hyn yn dynodi'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol cyntaf ar gyfer LTT. Byddant yn berthnasol i drafodiadau tir a fydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny. Mae bandiau treth a chyfraddau treth canrannol gwahanol yn berthnasol i'r canlynol:
 - Trafodiadau eiddo preswyl;
 - Trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch;
 - Trafodiadau eiddo amhreswyl;
 - Cydnabyddiaeth drethadwy sy'n cynnwys rhent (ac sydd felly ond yn berthnasol yn achos lesioedd amhreswyl).
- 4.2 Effaith fwriadedig y rheoliadau yw darparu ar gyfer y set gyntaf o fandiau treth a chyfraddau treth a gaiff eu defnyddio i gyfrifo'r swm o LTT y gellir ei chodi mewn perthynas â thrafodiad tir. Ar ôl pennu'r set gyntaf o fandiau a chyfraddau treth, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu newid neu gyflwyno bandiau a chyfraddau LTT newydd a fydd yn dod i rym ar unwaith (yn unol â'r rheolau o dan y weithdrefn gadarnhaol amodol).
- 4.3 Cyfrifir treth yn unol ag adrannau 27 a 28 o Ddeddf LTT ac eithrio lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy yn cynnwys rhent. Yn yr achosion hyn, cyfrifir treth yn unol â Rhan 3 o Atodlen 6 i Ddeddf LTT.
- 4.4 Bydd y bandiau a'r cyfraddau treth yn berthnasol i drafodiadau sy'n destun LTT. Bydd rhai trafodiadau, y mae ganddynt ddyddiad gweithredol ar ôl y dyddiad gweithredu, a fydd o bosibl yn destun Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) o hyd yn unol â Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018, a Deddf Cymru 2014.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus, sef 'Datganoli Trethi i Gymru – Treth Trafodiadau Tir', mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol y Dreth Trafodiadau Tir rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015. Roedd y sawl yr ymgynghorwyd â hwy yn cynnwys ymarferwyr, cyrff cynghori, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar y broses o bennu cyfraddau a bandiau yng Nghymru a ph'un a ddylai Gweinidogion Cymru allu newid cyfraddau a bandiau LTT, neu gyflwyno rhai newydd, a hynny ar unwaith. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cyfraddau a bandiau presennol SDLT yn addas i Gymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod gan Gymru werthoedd eiddo is ac awgrymwyd bandiau y gellid eu haddasu er mwyn adlewyrchu hyn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud penderfyniadau o ran pennu cyfraddau a bandiau. Mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹.
- 5.2 Yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a'r adborth gan rhanddeiliaid mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud penderfyniadau o ran pennu cyfraddau a bandiau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol ar y cyfraddau a'r bandiau gwirioneddol. Fodd bynnag, cyhoeddwyd papur Trysorlys, sef 'Treth Trafodiadau tir: Pennu Cyfraddau a Bandiau'² ym mis Medi 2016. Ffocws y papur ymchwil oedd nodi'r cyd-destun a'r materion y bydd angen eu hystyried wrth bennu cyfraddau a bandiau treth sy'n briodol i Gymru.
- 5.3 Yn ystod hynt Bil LTT ar gyfraddau a bandiau treth, ymgysylltwyd yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Fforwm Treth (arbenigwyr treth a grwpiau proffesiynol) a'r Grŵp Cynghori ar Dreth.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ac eithrio ambell achos, sy'n ofynnol gan ddarpariaethau Deddf Cymru 2014, ni fydd treth dir y dreth stamp bellach yn gymwys yng Nghymru o 1 Ebrill 2018. Drwy gyflwyno treth newydd, ac yn benodol fandiau a chyfraddau treth newydd, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar y refeniw a godir gan dreth ar drafodiadau tir.
- 6.2 Ystyriwyd dau opsiwn yma;
Opsiwn 1: Efelychu cyfraddau treth dir y dreth stamp yn LTT;
Opsiwn 2: Cyflwyno cyfraddau treth sy'n wahanol i dreth dir y dreth stamp. **Hwn yw'r opsiwn a ffefir.**

Asesiad o opsiwn 1

- 6.3 Gan y bydd LTT yn disodli treth dir y dreth stamp, ni fyddai opsiwn 1 â chyfraddau treth cyfwerth â'r cyfraddau treth presennol yn cael unrhyw effaith o gymharu â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Ni chynhelir unrhyw asesiad pellach o'r opsiwn hwn.

Asesiad o opsiwn 2

- 6.4 Gan y byddai opsiwn 2 yn arwain at wahanol gyfraddau treth o gymharu â'r cyfraddau sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, câi hyn rywfaint o effaith. Darperir asesiad o'r cyfraddau a'r bandiau LTT cyntaf isod sy'n ymdrin â phob elfen o'r dreth. Gan y bydd y dreth yn disodli treth dir y dreth stamp, caiff yr effaith ei hasesu mewn perthynas â'r cyfraddau treth presennol yng Nghymru.


¹ <http://gov.wales/betaconsultations/finance/land-transaction-tax/?lang=cy>

² <http://gov.wales/docs/caecd/publications/160915-lt-wards-cy.pdf>

Y prif gyfraddau preswyl

- 6.5 Yn gyffredinol yn 2018-19, amcangyfrifir y bydd tua 32,000 o drafodiadau (56% o'r holl drafodiadau preswyl) yn talu llai o dreth ar ôl cyflwyno cyfraddau LTT, ac y bydd tua 6,000 o drafodiadau (neu 11%) yn talu mwy o gymharu â threth dir y dreth stamp. Bydd y gweddill, sef tua 19,000 o drafodiadau preswyl, yn parhau i dalu'r un dreth â threth dir y dreth stamp (sef dim treth oni fydd y cyfraddau uwch ar drafodiadau preswyl yn gymwys).
- 6.6 Er mwyn asesu effaith prif gyfraddau preswyl LTT, fe'u cymherir â phrif gyfraddau preswyl treth dir y dreth stamp. Mae'r siart isod yn dangos hyn, gan ddefnyddio'r gyfradd dreth gyfartalog, gan fod hyn yn golygu y gellir adlewyrchu effaith y gwahanol gyfraddau a throthwyon treth.

Ffigur 1 – Prif gyfraddau preswyl cyfartalog LTT a SDLT



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar setiau data gweinyddol Cyllid a Thollau EM
Noder efallai na fydd y rhifau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu

- 6.7 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm o tua 57,000 o drafodiadau preswyl yng Nghymru yn 2018-19. Fodd bynnag, ni fydd cyflwyno LTT yn effeithio ar bob un ohonynt gan fod gan dreth dir y dreth stamp a LTT gyfradd dreth gyfartalog o sero islaw £125,000. Yng Nghymru, rhagwelir y bydd tua 19,000 o drafodiadau (tua thraean o drafodiadau) yn yr ystod prisiau hon yn 2018-19 pan fydd cyfraddau LTT yn gymwys am y tro cyntaf. Felly, ni fydd cyflwyno LTT yn cael unrhyw effaith ar drafodiadau yn y band prisiau hwn.
- 6.8 Ar gyfer prisiau prynu rhwng £125,000 a £180,000, byddai treth dir y dreth stamp yn berthnasol hyd at uchafswm o £1,100 ar gyfer unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf. Yn achos LTT, ni fydd unrhyw dreth yn berthnasol ni waeth p'un a yw'r prynwr yn brynwr tro cyntaf ai peidio. Amcangyfrifir y bydd tua 17,000 o drafodiadau (neu tua 30 y cant o drafodiadau) yn yr ystod prisiau hon. Mae'r band prisiau hwn yn cynnwys y pris cyfartalog diweddaraf ar gyfer tŷ yng Nghymru; sef £153,316 (SYG Rhagfyr 2017). Felly, ni fydd unrhyw LTT yn berthnasol ar sail pris cyfartalog presennol tŷ yng Nghymru ond, yn achos treth dir y dreth stamp, byddai treth o £566 yn berthnasol.
- 6.9 Felly, yn gyffredinol yn 2018-19, ni fydd LTT yn berthnasol ar gyfer tua 36,000 o drafodiadau (neu 63% o drafodiadau preswyl) yn achos y prif gyfraddau gan y byddant islaw £180,000.
- 6.10 Ar gyfer trafodiadau preswyl rhwng £180,000 a thua £400,000, bydd y dreth sy'n berthnasol o dan LTT yn is na threth dir y dreth stamp (oni bai mai prynwr tro cyntaf sy'n ymgymryd â'r trafodiad). Bydd y gyfradd dreth o £180,000 hyd at £250,000 yn uwch o dan LTT (3.5% o gymharu â 2% o dan dreth dir y dreth stamp), ond caiff hyn ei wrthbwyso'n llwyr gan y trothwy dechrau uwch ar gyfer LTT. Amcangyfrifir bod tua 18,000 (neu tua thraean) o drafodiadau o fewn y band prisiau £180,000 – £400,000.
- 6.11 Bydd gostyngiad treth o hyd at £1,100 ar gyfer unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf rhwng £180,000 a £250,000. Amcangyfrifir y bydd tua 10,000 (neu tua 18%) o drafodiadau yn y band prisiau hwn.
- 6.12 Ar gyfer trafodiadau rhwng £250,000 a £400,000, bydd y dreth sy'n berthnasol i unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf £50 yn is yn achos LTT na threth dir y dreth stamp. Amcangyfrifir y bydd tua 8,000 (neu 14%) o drafodiadau yn y band prisiau hwn.
- 6.13 Ar gyfer trafodiadau o tua £400,000, bydd y dreth sy'n berthnasol yn uwch yn achos LTT na threth dir y dreth stamp. Yn 2018-19, rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar lai na 3,000 o drafodiadau - y 5% uchaf o drafodiadau. Ar gyfer trafodiad hyd at £500,000, bydd y dreth sy'n berthnasol yn achos LTT yn £17,450 o gymharu â £15,000 o dan dreth dir y dreth stamp. Disgwylir y bydd tua 1,000 o drafodiadau (neu tua 2% o'r holl drafodiadau) yn £500,000 neu'n uwch yn 2018-19. O £925,000 neu'n uwch, yr uchafswm gwahaniaeth rhwng treth dir y dreth stamp a LTT yw £17,450. Disgwylir y bydd llai na 100 o drafodiadau yn y band prisiau hwn.


Tabl 1: crynodeb o'r prif gyfraddau preswyl

Pris yr eiddo	Newid mewn treth o SDLT i LTT (heb gynnwys prynwyr tro cyntaf)
£125,000 neu lai	Dim newid
£125,001-£180,000	Treth is o dan LTT (hyd at £1,100 o wahaniaeth)
£180,001-£250,000	Treth is o dan LTT (hyd at £1,100 o wahaniaeth)
£250,001-£401,000	Treth is o dan LTT (hyd at £50 o wahaniaeth)
£401,001-£750,000	Treth uwch o dan LTT (hyd at £8,700 o wahaniaeth)
£751,001+	Treth uwch o dan LTT (hyd at £17,450 o wahaniaeth)

Prynwyr tro cyntaf

6.14 Ers Cyllideb Hydref 2017 y DU, o dan dreth dir y dreth stamp, nid yw prynwyr tro cyntaf yn talu treth hyd at £300,000 ac wedyn rhoddir gostyngiad treth o £5,000 iddynt ar gyfer trafodiadau â chydabyddiaeth rhwng £300,000 a £500,000. O £500,000, ni chaiff prynwyr tro cyntaf unrhyw ostyngiad o ran treth dir y dreth stamp. Nodir cyfraddau treth dir y dreth stamp, gyda'r rhyddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf a heb y rhyddhad hwnnw, a chyfraddau LTT yn y ffigur isod.

Ffigur 2 – Prif gyfraddau treth preswyl cyfartalog LTT a SDLT â rhyddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar setiau data gweinyddol Cyllid a Thollau EM

6.15 Amcangyfrifir bod tua 17,000 o drafodiadau gan brynwyr tro cyntaf yng Nghymru – sef llai na thraean o'r holl drafodiadau preswyl y pwy ydych chi'n gwyboda. Tudalen y pwy ydych chi'n gwyboda

cyntaf yng Nghymru yw £132,074 (SYG Rhagfyr 2017). Nid oes llawer o wybodaeth ar gael am brynwyr tro cyntaf yng Nghymru, ond amcangyfrifir bod tua 13,000 o drafodiadau neu 80% o brynwyr tro cyntaf yng Nghymru yn prynu cartrefi sy'n costio llai na £180,000.

- 6.16 Gan mai £180,000 fydd y trothwy ar gyfer LTT, ni fydd cyflwyno'r dreth yn cael unrhyw effaith ar brynwyr tro cyntaf hyd at y pris hwn - ni fyddant yn talu unrhyw dreth o hyd. O £180,000, bydd prynwyr tro cyntaf yng Nghymru yn talu mwy o dreth o gymharu â threth dir y dreth stamp. Bydd hyn yn effeithio ar oddeutu 4,000 o drafodiadau neu'r 20% uchaf o ran pris o blith pryniannau prynwyr tro cyntaf yng Nghymru.

Trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch

- 6.17 Cyflwynwyd y cyfraddau uwch ar gyfer treth dir y dreth stamp ym mis Ebrill 2016. Felly, ar hyn o bryd, prin yw'r dystiolaeth am effaith y cyfraddau uwch yng Nghymru. Mae'r cyfraddau hyn yn fwyaf perthnasol i'r rheini sy'n caffael eiddo prynu i osod ac ail gartrefi. Amcangyfrifir y bydd tua 14,000 o drafodiadau o'r fath (tua chwarter cyfanswm y farchnad breswyl yng Nghymru) yn 2018-19.
- 6.18 Bydd LTT ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch (er enghraifft, eiddo prynu i osod ac ail gartrefi) yn ychwanegu 3% at y prif gyfraddau preswyl presennol, yn yr un modd â threth dir y dreth stamp. Yn gyffredinol, nid yw'r gwahaniaethau rhwng prif gyfraddau LTT a threth dir y dreth stamp yn debygol o greu unrhyw newidiadau sylweddol o ran ymddygiad ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch.
- 6.19 Bydd y ffaith bod cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp yn parhau mewn gwirionedd yn golygu y bydd y rheini sy'n prynu eiddo, nad yw'n drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch, yn parhau i dalu llai o dreth ac felly yn cael mantais dros brynwyr eraill. Ni ddylai cyflwyno LTT gael unrhyw effaith ychwanegol ar y marchnadoedd ar gyfer eiddo prynu i osod nac ail gartrefi.
- 6.20 Bydd cyfanswm y dreth a delir ar eiddo preswyl ychwanegol yn wahanol i'r dreth a delir o dan dreth dir y dreth stamp. Mae'r dreth ar eiddo preswyl ychwanegol, drwy'r cyfraddau uwch, yn cyfateb i 3% ychwanegol at brif gyfraddau LTT, sy'n wahanol i dreth dir y dreth stamp. Bydd i hyn oblygiadau tebyg o gymharu â threth dir y dreth stamp o ran talu mwy neu lai o dreth ar ôl cyflwyno LTT â'r prif gyfraddau a ddisgrifir uchod. I grynhoi:
- Ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ychwanegol hyd at £125,000, bydd LTT a threth dir y dreth stamp yr un peth;
 - Ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ychwanegol rhwng £125,000 a thua £400,000, bydd LTT yn llai na threth dir y dreth stamp;
 - Ar gyfer trafodiadau o tua £400,000, bydd LTT yn uwch na threth dir y dreth stamp;
 - Yn gyson â threth dir y dreth stamp, bydd y gwahaniaeth mewn treth rhwng y rheini sy'n talu'r cyfraddau uwch ar drafodiadau eiddo ychwanegol a'r rheini sy'n talu'r prif gyfraddau yn cyfateb i 3% o bris yr eiddo.

Effeithiau ar ymddygiad ac effeithiau economaidd ehangach

- 6.21 Disgwylir i newidiadau i gyfraddau treth effeithio ar brisiau a thrafodiadau, gan eu bod yn eu newid i gyfeiriad gwahanol i'r newid yn y dreth sy'n berthnasol. Mae'r effeithiau hyn yn anodd i'w mesur ac yn gyffredinol rhoddir gradd ansicrwydd 'uchel' iddynt gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol³. Disgrifir eu heffeithiau cyffredinol isod.

Effeithiau ar bris

- 6.22 Ar gyfer trafodiadau rhwng £125,000 a £250,000 gan unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf, caiff y dreth ei gostwng neu ei dileu'n llwyr drwy gyflwyno LTT, oni bai mai prynwr tro cyntaf sy'n ymgymryd â'r trafodiad. Ar gyfer y trafodiadau hyn, gall prisiau godi. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y ceir effaith fawr o ystyried maint y gostyngiad treth. Bydd y

³Gweler OBR (Rhagfyr 2017) ar gael yn; <http://budgetresponsibility.org.uk/download/policy-measures-database/>

cynnydd hwn mewn prisiau o fudd i'r rhan fwyaf o berchenogion eiddo presennol lle caiff y dreth ei gostwng.

- 6.23 Fodd bynnag, i'r rheini sy'n prynu drwy forgais (y tybir ei fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o drafodiadau), mae'r cynnydd mewn prisiau ynghyd â'r gostyngiad treth yn debygol o arwain at gost uniongyrchol is. Er y bydd costau ychydig yn uwch ar gyfer ad-daliadau morgais yn y dyfodol, bydd hynny'n cyd-fynd â'r budd ychwanegol o fod yn berchen ar ased drutach, y gellir ei werthu yn y dyfodol.
- 6.24 Caiff yr effaith ar brisiau ei gwyrddroi pan fydd y dreth yn cynyddu; gan leihau prisiau lle y bydd hyn yn gymwys. Yn gyffredinol, bydd hyn yn berthnasol i bobl sy'n prynu eiddo gwerth mwy na £400,000. Bydd hefyd yn berthnasol i brynwyr tro cyntaf sy'n prynu eiddo gwerth mwy na £180,000, ond dim ond effaith fach a geir, gan fod y newid mewn treth yn gyffredinol yn is o dan yr amgylchiadau hyn.

Effeithiau ar drafodiadau

- 6.25 Yn gyffredinol, bydd cyflwyno LTT yn cynyddu nifer y trafodiadau preswyl ychydig. Yn achos trafodiadau - fel yr effaith ar brisiau - ceir effaith i gyfeiriad gwahanol i'r newid mewn treth. Ar gyfer trafodiadau rhwng £125,000 a £250,000 gan unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf, mae'n bosibl y ceir mwy o drafodiadau o ganlyniad i'r gostyngiad mewn treth. Ar y llaw arall, ar gyfer eiddo dros £400,000, amcangyfrifir y gall fod yn bosibl y bydd llai o drafodiadau o ganlyniad i gyflwyno LTT. Ar gyfer prynwyr tro cyntaf, bydd treth yn cynyddu ar ôl cyflwyno cyfraddau LTT ar gyfer trafodiadau uwchlaw £180,000. Fel arfer, byddai hyn yn gysylltiedig â llai o drafodiadau ar gyfer y trafodiadau hyn yn y band prisiau hwn. Fodd bynnag, gan fod LTT bellach yn berthnasol, mae hyn mewn gwirionedd yn dod â'r polisi prynwyr tro cyntaf sy'n gysylltiedig â threth dir y dreth stamp i ben ar y prisiau uwch hyn yng Nghymru. Yn ôl asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r rhyddhad sy'n gysylltiedig â threth dir y dreth stamp, ychydig iawn o effaith a geir ar gynyddu nifer y trafodiadau gan brynwyr tro cyntaf⁴. Ar ôl asesu'r dystiolaeth, tybir nad yw'r cynnydd mewn treth ar brynwyr tro cyntaf yng Nghymru o £180,000 yn debygol o gael llawer o effaith ar nifer y trafodiadau.
- 6.26 Gan y bydd nifer sylweddol uwch o drafodiadau yn destun gostyngiad mewn treth na chynnydd mewn treth, yn gyffredinol, mae cyflwyno LTT yn debygol o arwain at gynnydd mewn trafodiadau preswyl. Ystyrir bod effeithiau economaidd cadarnhaol yn gysylltiedig â thrafodiadau, felly gallai cynnydd cyffredinol wella lles economaidd. Fel arfer, caiff y buddiannau posibl o fasnach eu profi gan brynwyr a gwerthwyr fel ei gilydd, ac felly byddai'r ddwy ochr yn cael budd o gynnydd yn nifer y trafodiadau. Nid yw'n bosibl amcangyfrif maint y buddiannau hyn i bob aelwyd. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu tai yn fwy effeithlon yn fwy cyffredinol ar draws aelwydydd, gan y bydd trafodiadau yn caniatáu i dai gael eu caffael gan y rheini sy'n eu gwerthfawrogi fwy. Yn ogystal, ymhlith y sgil-ffeithiau eraill posibl, mae'n bosibl y ceir cynnydd mewn gwariant gan ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cynnydd mewn trafodiadau tai gynyddu gwariant gan ddefnyddwyr o ganlyniad i'r gwariant ategol sydd ei angen wrth symud tŷ, nad yw'n 'eithrio' mathau eraill o wariant⁵. Caiff hyn, yn ei dro, effaith gadarnhaol ar dwf economaidd. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith gymharol fach ar drafodiadau yn gyffredinol, nid yw'r sgil-ffeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol.

Rhagbrynu

- 6.27 Effaith bosibl arall ar ymddygiad o ran trafodiadau yw rhagbrynu, sef newid amseru trafodiadau er mwyn talu llai o dreth. Gan fod cyfraddau LTT wedi'u cyhoeddi cyn 1 Ebrill 2018, cafwyd cyfle naill ai i ohirio trafodiadau neu eu cwblhau'n gynharach, gan ddibynnu pa gyfundrefn dreth fyddai'n golygu talu llai o dreth.

⁴ Gweler OBR (Tachwedd 2017) ar gael yn; <http://budgetresponsibility.org.uk/download/economic-and-fiscal-outlook-november-2017/>

⁵ Gweler 'Housing Market Responses to Transaction Taxes: Evidence From Notches and Stimulus in the UK' gan Michael Best a Henrik Kleven, erthygl arfaethedig yn Review of Economic Studies.


- 6.28 Mae rhagbrynu o fudd i'r rheini sy'n ymgymryd â'r trafodiad gan eu bod yn talu llai o dreth. Felly ceir buddiannau posibl i'r rheini tuag at begwn isaf y dosbarthiad prisiau tai pe gohiriwyd trafodiadau tan fis Ebrill 2018 ac i'r rheini tuag at begwn uchaf y dosbarthiad prisiau tai pe cwblhawyd trafodiadau yn gynharach fel rhan o gyfundrefn treth dir y dreth stamp cyn mis Ebrill 2018. Mae'r newidiadau hyn mewn treth yr un peth â'r rheini a ddisgrifir uchod yn fwy cyffredinol.
- 6.29 Effaith dros dro yw rhagbrynu, ac mae'n fwyaf tebygol yn ystod y misoedd yn union cyn ac ar ôl mis Ebrill 2018. Prin fydd effeithiau rhagbrynu ar les economaidd, gan ei fod yn newid amseru trafodiadau yn hytrach na ph'un a fydd y trafodiad yn digwydd ai peidio. Pe newidiwyd amseru niferoedd uchel o drafodiadau gellid amharu rhywfaint ar y farchnad eiddo, ond gan fod y newidiadau treth o dreth dir y dreth stamp i'r LTT yn gymharol fach ar y cyfan, ni ddisgwylir hynny.
- 6.30 Bydd rhagbrynu yn effeithio ar y referniw treth a gaiff Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yn gyffredinol, disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn cael referniw ychwanegol o ganlyniad i gyflwyno LTT ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cael llai. Fodd bynnag, o dan delerau'r Fframwaith Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael ad-daliad am ymddygiad rhagbrynu ac felly mae rhagolygon referniw Llywodraeth Cymru yn cynnwys referniw ychwanegol Llywodraeth y DU.
- 6.31 Cynhyrchir cyfanswm referniw o £163m o'r cyfraddau preswyl, gan gynnwys cyfanswm yr effeithiau ar ymddygiad, yn 2018-19.
- 6.1 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhagolygon yn adroddiad diweddarau craffu ac asesu Ysgol Fusnes Bangor a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb derfynol 2018-19⁶.

⁶ Mae Cyllideb Derfynol 2018-19 ar gael yn; <http://gov.wales/funding/budget/final-budget-2018-19/?lang=cy>

Amhreswyl

6.2 Caiff cyfraddau amhreswyl LTT eu cymharu â chyfraddau cyfatebol treth dir y dreth stamp yn y siart isod. Mae'r siart yn dangos y gyfradd dreth gyfartalog, gan fod hyn yn golygu y gellir adlewyrchu effaith y gwahanol gyfraddau a throthwyon treth.

Ffigur 3 – Cyfraddau treth cyfartalog treth dir y dreth stamp a LTT ar gyfer eiddo amhreswyl



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar setiau data gweinyddol Cyllid a Thollau EM
Noder: Mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar trafodiadau amhreswyl lle na cheir rhyddhad treth.

- 6.3 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm o ychydig dros 4,000 o drafodiadau amhreswyl yng Nghymru yn 2018-19 lle na cheir rhyddhad treth ac a fydd o bosibl yn destun y prif gyfraddau. Fodd bynnag, ni fydd cyflwyno LTT yn effeithio ar bob un o'r trafodiadau hyn. Gyda LTT, yn yr un modd â threth dir y dreth stamp, ni thelir treth ar rydd-ddaliad amhreswyl, trosglwyddo aseiniadau na thrafodiadau premiwm les-ddaliad o dan £150,000. Amcangyfrifir y bydd tua hanner yr holl drafodiadau amhreswyl trethadwy yng Nghymru islaw'r trothwy o £150,000 yn 2018-19. Felly ni fydd cyflwyno cyfraddau LTT yn effeithio ar y trafodiadau hyn.
- 6.4 Gan fod LTT yn dechrau gyda chyfradd dreth is (1%) o gymharu â threth dir y dreth stamp (2%), bydd pob trafodiad o £150,000 hyd at £1.1m yn talu llai o dreth – hyd at £1,000 yn llai. Amcangyfrifir bod tua 40% o'r trafodiadau trethadwy yng Nghymru o fewn yr ystod prisiau hon ac y byddant yn talu llai o dan LTT na threth dir y dreth stamp.

6.5 O £1.1m, bydd LTT yn uwch na threth dir y dreth stamp. Yn 2018-19, amcangyfrifir y bydd llai na 300 (neu tua 6%) o drafodiadau amhreswyl yng Nghymru yn talu mwy o dreth o gymharu â threth dir y dreth stamp. Bydd y cynnydd mewn treth yn amrywio gan ddibynnu ar werth y trafodiad. Bydd trafodiad £2m yn talu treth o £89,450 o dan gyfundrefn treth dir y dreth stamp a £98,440 o dan y gyfundrefn LTT. Byddai'r dreth a delir ar drafodiad £5m yn cynyddu o £239,500 o dan gyfundrefn treth dir y dreth stamp i £278,500 o dan y gyfundrefn LTT.

Effeithiau ar ymddygiad ac effeithiau economaidd ehangach

- 6.6 Fel gyda'r newidiadau i'r cyfraddau treth preswyl, bydd y cynnydd mewn cyfraddau treth o dreth dir y dreth stamp i LTT yn lleihau prisiau a nifer y trafodiadau amhreswyl, neu i'r gwrthwyneb pan fydd cyfraddau treth yn gostwng.
- 6.7 Ar gyfer trafodiadau lle ceir gostyngiad mewn treth o dreth dir y dreth stamp i LTT (rhwng £150,000 ac £1.1m), bydd pris a nifer y trafodiadau hyn yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'r effeithiau amcangyfrifedig ar brisiau a thrafodiadau yn debygol o fod yn fach o ystyried maint y newid mewn treth.
- 6.8 Ar gyfer trafodiadau lle ceir cynnydd mewn treth (yn uwch nag £1.1m), mae'r effeithiau ar brisiau a thrafodiadau yn mynd i gyfeiriad gwahanol, gan leihau prisiau ac amllder trafodiadau. Fodd bynnag, bydd cynnydd mewn treth ar gyfer nifer llawer llai o drafodiadau o gymharu â'r rheini lle ceir gostyngiad.
- 6.9 Fel gyda'r cyfraddau preswyl, bydd cyflwyno LTT yn cynyddu'r nifer gyffredinol o drafodiadau amhreswyl ychydig. Ystyrir bod effeithiau economaidd cadarnhaol yn gysylltiedig â thrafodiadau, felly gallai hyn hefyd, mewn ffordd anuniongyrchol, wella lles. Gan fod y cynnydd hwn yn ymwneud â busnesau, gall hefyd gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Fel arfer, caiff y buddiannau posibl o fasnach eu profi gan brynwyr a gwerthwyr fel ei gilydd, ac felly byddai'r ddwy ochr yn cael budd o gynnydd yn nifer y trafodiadau. Nid yw'n bosibl amcangyfrif maint y buddiannau hyn i fusnesau. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at ddefnydd mwy effeithlon o safleoedd busnes yn fwy cyffredinol.
- 6.10 Tybir y bydd busnesau llai o bosibl yn cael mwy o fudd o'r gostyngiad mewn treth, gan eu bod yn fwy tebygol o brynu adeiladau gwerth rhwng £150,000 ac £1.1m. Mae cost (ac o bosibl maint) adeilad yn debygol o gyfateb yn fras i faint y busnes yn gyffredinol, felly gall y gostyngiad mewn treth drwy gyflwyno LTT fod o fudd i rai busnesau cymharol fawr hefyd.
- 6.11 Bydd cyflwyno LTT yn golygu cynnydd mewn treth i eiddo amhreswyl a brynir am dros £1.1m. Ystyrir bod busnesau bach neu ganolig yn llai tebygol o brynu eiddo o'r fath, felly mae'r newidiadau treth yn yr ystod prisiau hon yn llawer mwy tebygol o effeithio ar fusnesau mawr.
- 6.12 Gallai sgil-effeithiau'r newidiadau treth hyn effeithio o bosibl ar fusnesau bach drwy leihad mewn trafodiadau gwerth uchel. Gallai hyn arwain at lai o fuddsoddiad mewn safleoedd busnes y gellid wedyn eu his-osod i fusnesau bach, gan effeithio ar gyflenwad safleoedd busnes newydd. Mae'n annhebygol y bydd llawer o effaith ar gyflenwad presennol safleoedd busnes yn y byrdymor i'r tymor canolig, ond gallai fod effaith tymor hwy os bydd llai o safleoedd ar gael dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, amcangyfrifir na fydd llawer o sgil-effeithiau posibl oherwydd tybir hefyd y caiff prisiau eu haddasu yn unol â'r cynnydd mewn treth.
- 6.13 Fel gyda chyfraddau preswyl, disgwylir y bydd rhywfaint o ragbrynu o ganlyniad i gyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau cyn mis Ebrill 2018. Disgwylir y bydd y math hwn o newid mewn ymddygiad wedi'i gyfyngu i 2018-19. Mae rhagbrynu o fudd i'r rheini sy'n ymgymryd â'r trafodiad gan eu bod yn talu llai o dreth. Felly, ceir budd o bosibl i'r rheini â thrafodiadau rhwng £150,000 ac £1.1m os caiff y trafodiadau hynny eu gohirio tan ar ôl cyflwyno LTT ac i'r rheini sy'n prynu am dros £1.1m os caiff y trafodiadau hynny eu cwblhau yn ystod cyfnod treth dir y dreth stamp. Disgwylir y bydd rhagbrynu gweinyddol hefyd lle y caiff

trafodiadau eu cwblhau yn gynharach er mwyn defnyddio system weinyddol gyfarwydd Cyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yr effaith negyddol ar refeniw yn niwtral o ran y gyllideb oherwydd disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn ad-dalu Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r refeniw ychwanegol a gaiff yn ystod 2017-18 o ganlyniad i ragbrynu o dan delerau'r Fframwaith Cyllidol.

Cyfraddau rhent prydles amhreswyl

- 6.14 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm o tua 2,000 o drafodiadau amhreswyl yng Nghymru yn 2018-19 lle na cheir rhyddhad treth ac a fydd o bosibl yn destun cyfraddau LTT amhreswyl ar renti prydles. Fodd bynnag, ni fydd cyflwyno LTT yn effeithio ar bob un o'r trafodiadau hyn. Yn fras, yn yr un modd â threth dir y dreth stamp, ni thelir unrhyw dreth ar drafodiadau islaw £150,000. Amcangyfrifir yn 2018-19 y bydd ychydig llai na 1,000 o drafodiadau (neu tua hanner y trafodiadau) islaw £150,000. Ni fydd cyflwyno cyfraddau LTT yn effeithio ar y trafodiadau hyn. Rhwng £150,000 a £2m, mae'r dreth a delir yr un peth ar gyfer LTT a threth dir y dreth stamp, felly ni chaiff cyflwyno cyfraddau a bandiau LTT unrhyw effaith ar drafodiadau o fewn y band prisiau hwn⁷.
- 6.15 Ar gyfer trafodiadau uwchlaw £2m, gall LTT fod hyd at £30,000 yn uwch na threth dir y dreth stamp. Amcangyfrifir y bydd gan lai na 100 (neu lai na 5%) o drafodiadau yng Nghymru werth presennol net (NPV) o £2m neu fwy yn 2018-19 lle y bydd mwy o dreth yn daladwy ar ôl cyflwyno LTT. Ar gyfer y trafodiadau hyn, disgwylir y bydd effeithiau negyddol ar drafodiadau a phrisiau, neu'r gwerth presennol net yn yr achos hwn. Gan fod y gwerth yn seiliedig ar gyfuniad o'r rhent blynyddol a hyd y brydles, gallai effaith ostyngol ar brisiau arwain at brydlesau byrrach â gwerth uchel iawn, gostyngiad i rai rhenti blynyddol gwerth uchel neu gyfuniad o'r ddau. Fodd bynnag, gan mai dim ond nifer fach iawn o drafodiadau gwerth uchel y mae'r cynnydd mewn treth yn effeithio arnynt ac mai dim ond cynnydd treth bach a geir, ar y cyfan mae'n annhebygol y ceir unrhyw effaith sylweddol ar brisiau neu drafodiadau yn y band prisiau hwn. Ystyrir hefyd y bydd unrhyw effeithiau eraill ar ymddygiad ac effeithiau economaidd ehangach posibl yn deillio o gyflwyno LTT ar renti prydles amhreswyl hefyd yn fach iawn.
- 6.16 Rhagwelir cyfanswm refeniw o £86m o'r cyfraddau amhreswyl, gan gynnwys cyfanswm yr effeithiau ar ymddygiad, yn 2018-19.
- 6.17 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y rhagolygon yn adroddiad diweddarau craffu ac asesu Ysgol Fusnes Bangor a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb derfynol 2018-19⁸.

Mae'n bosibl na fydd y ffigurau yn cyfateb yn union i gyfansymiau Cyllid a Thollau EM. Nid yw'r ffaith ein bod wedi defnyddio data ystadegol Cyllid a Thollau EM fel rhan o'r gwaith hwn yn awgrymu bod Cyllid a Thollau EM yn cymeradwyo'r gwaith mewn perthynas â'r ffordd y cafodd y wybodaeth ei dehongli neu ei dadansoddi.

7. Adolygiad ar ôl Gweithredu

- 7.1 Mae adran 77 o Ddeddf LTT yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i gynnal adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir i'w gwblhau o fewn 6 blynedd o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff Deddf LTT Gydsyniad Brenhinol. Bydd adolygiad o LTT yn ymdrin â'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf LTT.

⁷Ceir rheolau wedi'u targedu ar gyfer gwrthweithio osgoi sy'n berthnasol i rai taliadau rhent amhreswyl a all fod yn berthnasol i drafodiadau rhent prydles amhreswyl a all gynyddu'r dreth. Fodd bynnag, nid yw hynny'n deillio o gyflwyno'r cyfraddau a'r bandiau hyn. Nodir effaith y rheolau wedi'u targedu ar gyfer gwrthweithio osgoi yn fanylach yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ategu Rheoliadau'r Dreth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig Rhent Perthnasol) (Cymru) 2018.

⁸ Mae Cyllideb Derfynol 2018-19 ar gael yn; <http://gov.wales/judmy/budget/final-budget-2018-19/?lang=cy>

SL(5)170 - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol cyntaf ar gyfer y dreth trafodiadau tir ("LTT") a gyflwynir gan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Mae'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol yn y Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â thrafodion trethadwy gyda dyddiad effeithiol o 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

Mae bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar wahân yn berthnasol i:

- Trafodiadau eiddo preswyl;
- Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch;
- Trafodiadau eiddo amhreswyl ac
- Ystyriaeth sy'n daladwy sy'n cynnwys rhent.

Y weithdrefn

Cadarnhaol

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Yn dilyn gosod y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol yn y Rheoliadau hyn, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i newid neu gyflwyno bandiau newydd a chyfraddau newydd ar gyfer LTT yn syth (gweithdrefn gadarnhaol dros dro - Adran 25 y Dreth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017).

[Rheol Sefydlog 21.3(ii), sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad]

2. Bydd y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol yn berthnasol i drafodiadau sy'n destun LTT. Bydd rhai trafodiadau y bydd ganddynt ddyddiad effeithiol ar ôl y dyddiadau mynd yn fyw a allai barhau i fod yn destun Treth Tir y Dreth Stamp 'SDLT' yn unol â Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 a Deddf Cymru 2014 .

[Rheol Sefydlog 21.3(ii), sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad]

3. O dan yr Atodlen yn y Rheoliadau hyn, Tabl 4, nid yw 'band cyfradd sero NRL' wedi'i ddiffinio. Fodd bynnag, caiff ei ddiffinio o dan Baragraff 28, Atodlen 6 i'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a



Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Er bod ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yn meddu ar yr ystyr sydd iddynt yn y rhiant Ddeddf (oni bai yr ymddengys fod yna fwriad croes) byddai croesgyfeiriad at y diffiniad o 'fand cyfradd sero NRL' yn Neddf 2017 yn ddefnyddiol o safbwynt eglurder a hygyrchedd.

[Rheol Sefydlog 21.3(ii), sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad]

Goblygiadau sy'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd

Nid oes dim.

Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ddau bwynt cyntaf sydd yn yr adran 'craffu ar rinweddau' o'r adroddiad.

O ran y trydydd pwynt rhinweddau, yn ein barn ni nid oes angen diffinio'r ymadrodd y cyfeirir ato yn yr adroddiad, fel mater o gyfraith. Mae adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru a Lloegr, yn darparu, "Where an Act confers power to make subordinate legislation, expressions used in that legislation have, unless the contrary intention appears, the meaning which they bear in an Act". Gan fod yr ymadrodd y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn cael ei ddiffinio yn y rhiant-ddeddf, mae Deddf Dehongli 1978 yn trosglwyddo'r diffiniad i'r offeryn yn awtomatig. Nid oes angen unrhyw ddarpariaeth bellach, felly, i gael yr effaith hon.

Rydym hefyd o'r farn fod yr offeryn arbennig hwn yn cydblethu â'r rhiant-ddeddf mewn ffordd unigryw. Fel y bydd yr Aelodau yn nodi, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer un elfen o'r fformiwla (y cyfraddau a'r bandiau) a ddefnyddir i gyfrifo swm y dreth sy'n daladwy, ac mae gweddill elfennau'r fformiwla honno wedi'u cynnwys yn y rhiant-ddeddf. Rydym yn credu, am y rheswm hwn, y bydd yr offeryn hwn yn cael ei ddarllen ochr yn ochr â'r rhiant-ddeddf, ac felly nid yw'r ffaith nad oes diffiniad ychwanegol o LA yn bygwth eglurder na hygyrchedd yr offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

11 Ionawr 2018





Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

T: 020 7270 0575
E: Correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Elin Jones AM
Presiding Officer
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

16 January 2018

EUROPEAN UNION (WITHDRAWAL) BILL

Ahead of Commons Report stage for the European Union (Withdrawal) Bill today and tomorrow, I am writing to provide you with an update on amendments made to the Bill at Committee and to highlight amendments that the Government has tabled for Report stage consideration.

You will be aware of our continuing commitment to improve clause 11 of the Bill; whilst it has not been possible to bring forward an amendment at Commons Report, we have reaffirmed our commitment to amend this provision in the House of Lords and discussions continue between the UK Government and the devolved administrations to enable us to do so.

Committee stage amendments

As I noted in my letter of 10 December, amendments at Committee stage modified the scrutiny procedures for SIs made using powers in the Bill. The first of these amendments concerned the explanatory memoranda produced to accompany regulations made using powers under the Bill. It places requirements on UK Government Ministers to include information in those memoranda.

The second amendment modified Schedule 7 to require Ministers of the Crown to lay Statutory Instruments (which they are proposing to make under the negative procedure using the three principal powers in the Bill) before the Commons for consideration by a committee. You will also wish to note that the Government has tabled consequential amendments relating to these matters ahead of Report stage of the Bill.

These amendments do not place requirements on the Welsh Ministers and do not apply to the Assembly. Nonetheless I have asked my officials to discuss these provisions with yours to ascertain the Welsh Government's and the Assembly Commission's views on these and I understand that these conversations are

progressing well. I am interested in your views on whether these provisions should apply to Assembly scrutiny of Welsh Ministers' use of powers in the Bill. I attach a detailed list of questions that we have asked the Welsh Government at Annex A and would also welcome any views you may have.

Clause 10 amendments

We have listened to the arguments put forward by the Welsh Government and the Scottish Government on the powers in Clause 10 and have brought forward two amendments for Report stage.

The first amendment would change the requirement for the devolved administrations to seek the consent of the UK Government in exercising the deficiencies power to a consult requirement. This is in line with the amendment published by the Welsh and Scottish Governments. The second Government amendment would provide that, where a framework is not required in a given area, the devolved administrations should be able to use the powers in the Bill to correct deficiencies in direct retained EU law in that area.

We recognise the importance of working with the devolved administrations to ensure the Bill works for all parts of the UK and these amendments demonstrate our willingness to make improvements to it. We are also continuing discussions with the devolved administrations on how we can best manage the task of preparing the statute book for exit day. My colleagues and I continue to be grateful for the constructive engagement of the Welsh Government on these issues.

Clause 7 amendments

We have tabled amendments to Clause 7 to make absolutely clear the scope of the power in this clause given speculation on the ways it could be used. These amendments ensure the correcting power can still make all the changes required to deliver a functioning statute book.

We have tabled amendments which restrict the scope of the power to correct deficiencies in retained EU law by making the list of deficiencies in clause 7(2) exhaustive rather than illustrative. This means that the correcting power can be used only if deficiencies arise in the circumstances listed.

To ensure the scope of the power matches the range of deficiencies identified there are two further amendments:

- Firstly, a 'sweeper' provision to enable deficiencies similar to those listed to be treated in the same way as those listed.. For example, where 'Member States' public authorities' are referred to the 'sweeper' provision will mean that EEA-EFTA public authorities could also be included.
- Secondly, providing a power for UK Ministers to add to the deficiencies list through an SI requiring the approval of both Houses of Parliament.

These amendments do not place requirements on Welsh Ministers. However, they will apply to corrections made by Welsh Ministers using the powers conferred by Clause 10 and Schedule 2. I have asked my officials to discuss these provisions with yours.

This list of deficiencies applies across the UK. The UK Government believes it is important that there is consistency between jurisdictions in the UK, so any additional types of deficiencies would also apply to devolved ministers' powers. We would expect to consult with colleagues in the devolved administrations where we identify additional deficiencies before adding new types of deficiency as this would affect devolved ministers' powers.

The UK Government would consider closely any suggestions for additional categories of deficiencies from the devolved administrations. We would expect to accept any proposals the devolved administrations make to ensure devolved ministers are able to make the appropriate changes to prepare their laws for exit day.


Rights of challenge based on the general principles of EU law

Throughout Committee Stage we listened carefully to the views of MPs across the House, including those who called for greater legal certainty as we leave the EU.

Therefore, we have brought forward amendments to clarify the position regarding rights of challenge under the general principles of EU law. These amendments will, in some cases, allow a legal challenge to be brought for up to three months after exit day on the basis of incompatibility with the general principles of EU law.

Any challenge must relate to a cause of action that occurred before exit day and may be made against either administrative action or domestic legislation other than Acts of Parliament. The effect of this amendment will allow courts, tribunals and other public authorities to disapply or quash the offending enactment or conduct.

I am writing in similar terms to the Presiding Officer and I am copying this letter to the Chair of the Assembly's External Affairs and Additional Legislation Committee, the Chair of the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee and to the Chair of the Welsh Affairs Committee in Parliament.



Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Annex A

The amendments described in the attached letter do not, largely, have any effects on the devolved administrations. If the devolved administrations would like similar provisions to be made for them in the Bill, this would be possible and the UK Government would expect to make these changes at committee stage in the House of Lords. We would therefore need your decisions in principle by Second Reading in the House of Lords to allow time to work up mutually acceptable drafting.

We expect the Bill to enter the House of Lords this week and Lords Second Reading is scheduled for 30 and 31 January, with committee stage likely to commence in mid-late February. This annex therefore sets out a list of questions that we believe need to be answered quickly in order to proceed with any amendments to bring the devolved administrations and devolved legislatures within the scope of the provisions. Officials in DExEU will be happy to further discuss any of these with your officials if that would be helpful to your decision making process.

Explanatory Material

- Would you like devolved authorities to be statutorily bound to produce explanatory material alongside SIs made under the relevant powers in schedule 2 of the Bill?

If so:

- Should this explanatory material relate to the changes being made by the SI?
- Should this explanatory material relate to the relevant equalities duties?
- Should this requirement only apply to SIs made under the powers in Schedule 2 parallel to those in clauses 7(1), 8 and 9?

Sifting

- Would you like devolved authorities to be required to submit negative SIs for a committee of the relevant legislature to consider the appropriateness of the negative procedure?

If so:

- Should this only apply to the SIs made under the powers in schedule 2 parallel to those in clauses 7(1), 8 and 9?
- Should the other provisions of relating to a sifting committee (e.g. timing, non-binding, remedies) parallel those applying in the UK House of Commons?

Joint procedure

- Currently the sifting procedure and the requirement to produce explanatory material do not apply to SIs made via the joint procedure - do you have any views on this approach?

Other outstanding technical matters

The “made affirmative” procedure

In the Bill as introduced we included a “made affirmative procedure” which could be used by UK ministers in certain urgent cases where there was not sufficient time to go through the normal draft affirmative procedure before the instrument needed to be in force (see paragraphs 4 and 13 of Schedule 7 to the Bill). This procedure would involve making an instrument which will cease to have effect one month after the instrument is made unless the instrument is debated and approved within one month of being made.

As this was an unusual legislative procedure we did not apply it to the powers conferred on any of the devolved administrations on introduction, but instead sought views from each administration on whether they thought the procedure would be useful and appropriate in the context of their legislature.

- Would you like the “made affirmative” procedure to be available for powers exercised by Scottish Ministers?

Defined terms and the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010:

In the Bill as introduced the only amendments we made to the defined terms in the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010 were to preserve the defined terms from the European Communities Act. However in the Interpretation Act 1978 we introduced several new defined terms related to withdrawal that the UK Government thought would be useful in relation to its future legislation - these include the following new terms added by para 11(e) of Schedule 8 of the EU (Withdrawal Bill):

- “retained EU law”
- “retained direct EU legislation”
- “retained EU obligation”
- “exit day”.

The Interpretation Act was also amended to alter the definition of “enactment” so that going forward its meaning would include retained direct EU legislation.

We did not include these in ILRA on introduction as we thought it was a matter for the Scottish Government as to whether these new definitions should be included and we wrote to offer to include any of these new definitions in ILRA if you thought it would be suitable to include them

- Would you like any of these new defined terms (or the new meaning of “enactment”) to be included in the amendments to ILRA?
- Are there any other issues relating to EU-exit and interpretation legislation that you think it would be useful to address in the European Union (Withdrawal) Bill?



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

DYDDIAD 16 Ionawr 2018

GAN Carwyn Jones, Prif Weinidog

Rwy'n gwneud y datganiad ysgrifenedig hwn wrth i Dŷ'r Cyffredin ddechrau ar Gyfnod Adrodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Mae'r Bil fel y mae ar hyn o bryd yn ymosodiad sylfaenol ar ddatganoli. Byddai'n golygu bod y cyfyngiadau presennol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, a fydd yn syrthio o'r neilltu wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn cael eu disodli â chyfres newydd o gyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol a fyddai'n cael eu rheoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi dweud yn gyson nad oes unrhyw obaith y bydd Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsynio â'r Bil hwn fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â nod cyffredinol y Bil Ymadael, sef trosglwyddo cyfraith yr Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth ddomestig o'r dyddiad y byddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi ceisio gweithio mewn ffordd adeiladol gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

Rydym yn gresynu nad yw'r Llywodraeth, er gwaethaf ymrwymiad Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, wedi cyflwyno unrhyw welliant i Gymal 11 sydd, fel y mae ar hyn o bryd, yn gwbl annerbyniol i ni.

Fe gyhoeddodd gyfres o welliannau ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, a phe bai rheiny wedi'u derbyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod cyfnodau diwygio'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, byddai hynny wedi caniatáu i ni argymhell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gydsynio i'r Bil.

Byddwn yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch ffyrdd y gellid diwygio'r Bil wrth iddo barhau ar ei daith drwy Ddau Dŷ'r Senedd - yn arbennig o ran Cymal 11 - er mwyn sicrhau ei fod yn ateb y diben wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a pharchu datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y strategaeth hon, ynghyd â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio arno yn ddiweddarach eleni, yw'r drefn yr ydym yn ei ffafrio o hyd ar gyfer sicrhau bod Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn addas i'r diben ac amddiffyn setliad datganoli Cymru.

Fodd bynnag, dros yr wyth mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu Bil Parhad y gellir ei ddefnyddio os daw yn glir na fydd yn bosib diwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn gywir.

Os na fydd ein trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), rwy'n bwriadu cyflwyno ein Bil Parhad i'r Llywydd cyn diwedd y mis hwn, er mwyn iddi wneud penderfyniad yn ei gylch.

Eitem 4.3

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC, CBE
Cadeirydd Dros-dro
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

SeneddCLA@assembly.wales

16 Ionawr 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017. Roeddech yn gofyn am eglurhad i ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt cofnodi technegol 3, ar effaith ôl-weithredol y Gorchymyn.

Gallaf eich sicrhau chi a'ch Pwyllgor y cafwyd cydbwysedd o ran pob buddiant perthnasol wrth ystyried defnydd ôl-weithredol y Gorchymyn.

Nod cyffredinol y gorchymyn yw pennu cyflogau teg ar gyfer gweithwyr amaethyddol a chefnogi sgiliau a gyrfaedd o fewn y sector, gan alluogi gweithwyr i ddysgu mwy a datblygu. Mae defnyddio'r gorchymyn yn y dull hwn yn helpu i ddatblygu Cymru mwy lewyrchus, cadarn a chyfartal.

Datblygwyd y Gorchymyn i ystyried ymrwymïadau Llywodraeth Cymru o dan y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg, cydraddoldeb, hawliau dynol a hawliau plant.

Rhoddwyd ystyriaeth i amrywiol faterion gan gynnwys y symiau dan sylw, y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth drwy'r broses o lunio'r Gorchymyn, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod ymgynghoriad y Panel ar y Gorchymyn, a chanlyniadau peidio â llunio'r gorchymyn cyn gynted â phosib.

*Xn gywir
Lesley*

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 34

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Diwygiadau a gynigir gan Lywodraethau Cymru a'r Alban i Fil Masnach y DU
DYDDIAD	18 Ionawr 2018
GAN	Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen deddfwriaeth ar gyfer datblygu polisi masnach y DU ar ôl iddi adael yr UE. Rydyn ni'n cytuno bod angen y darpariaethau yn y Bil Masnach sy'n cynnal ein cysylltiadau masnachol presennol ac yn sicrhau mynediad at farchnadoedd caffael llywodraethau, hynny er mwyn rhoi eglurder a sicrwydd i fusnesau a defnyddwyr.

Fel Bil yr UE (Ymadael), yn y Bil Masnach cyfyngir ar y cymhwysedd gweithredol a roddir i Weinidogion Cymru a'r Alban, ond ni osodir yr un cyfyngiadau ar y cymhwysedd gweithredol a roddir i Weinidogion yr DU. Hefyd, mae'n rhoi pwerau cydamserol i Weinidogion y DU yn y gwledydd datganoledig a chânt eu harfer heb ofyn caniatâd Gweinidogion Cymru a'r Alban. Nid yw hyn yn dderbyniol. Hefyd, yn ein barn ni, dylai'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach, fel corff annibynnol, gael clywed mewnbyn y gwledydd datganoledig yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol.

O'r herwydd, ni all Llywodraeth Cymru na Llywodraeth yr Alban argymhell bod eu deddfwriaethau yn rhoi eu caniatâd deddfwriaethol i'r Bil fel ag y mae. Mewn ymdrech i wneud y Bil yn dderbyniol o safbwynt datganoli, rydym ar y cyd â Llywodraeth yr Alban wedi datblygu diwygiadau y gobeithiwn eu gweld yn cael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin. Fe'u hatodir, ynghyd â nodiadau esboniadol. Fel y gwnaethom ei ddatgan ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach a osodwyd ar 7 Rhagfyr, yn ein barn ni, dylid ystyried y cwestiwn a ddylid rhoi caniatâd deddfwriaethol neu beidio yng ngoleuni ymateb Llywodraeth y DU i'r diwygiadau hyn.

1

Clause 1, page 1, line 15 at end insert—

5 “() No regulations may be made under subsection (1) by a Minister of the Crown, so far as they contain provision which would be within the devolved competence of the Scottish Ministers (within the meaning given in paragraph 7 of Schedule 1), unless the Scottish Ministers consent.

10 () No regulations may be made under subsection (1) by a Minister of the Crown, so far as they contain provision which would be within the devolved competence of the Welsh Ministers (within the meaning given in paragraph 8 of Schedule 1), unless the Welsh Ministers consent.”

2

15 **Clause 2, page 2, line 40 at end insert—**

20 “() No regulations may be made under subsection (1) by a Minister of the Crown, so far as they contain provision which would be within the devolved competence of the Scottish Ministers (within the meaning given in paragraph 7 of Schedule 1), unless the Scottish Ministers consent.

25 () No regulations may be made under subsection (1) by a Minister of the Crown, so far as they contain provision which would be within the devolved competence of the Welsh Ministers (within the meaning given in paragraph 8 of Schedule 1), unless the Welsh Ministers consent.”

3

Clause 2, page 3, line 3 at end insert—

30 “(10) No regulations may be made under subsection (8)(b) unless the Secretary of State has consulted with the Scottish Ministers and the Welsh Ministers.”

4

Schedule 1, page 7, line 24 at end insert—

35 “(4) This paragraph does not apply to regulations made under section 1(1) or 2(1) by the Scottish Ministers or the Welsh Ministers.”

5

Schedule 1, page 8, line 5, at end insert—

40 “(4) This paragraph does not apply to regulations made under section 1(1) or 2(1) by the Scottish Ministers or the Welsh Ministers.

Requirement for consultation in certain circumstances

- [] (1) No regulations may be made by the Scottish Ministers or the Welsh Ministers acting alone under section 1(1) or 2(1) so far as the regulations are to come into force before exit day unless the regulations are, to that extent, made after consulting with a Minister of the Crown.
- (2) No regulations may be made by the Scottish Ministers or the Welsh Ministers acting alone under section 2(1) so far as the regulations make provision about any quota arrangements or are incompatible with any such arrangements unless the regulations are, to that extent, made after consulting with a Minister of the Crown.
- (3) In sub-paragraph (2) “quota arrangements” has the same meaning as in paragraph 3.”

6

15 **Schedule 4, page 14, line 34, at end insert –**

- “(aa) a non-executive member appointed by the Secretary of State with the consent of the Scottish Ministers,
- (ab) a non-executive member appointed by the Secretary of State with the consent of the Welsh Ministers,”

20

Trade Bill Amendments Explanatory Notes

A. UK Government powers to implement the Agreement on Government Procurement and certain other international agreements: requirement for consent of Scottish or Welsh Ministers if making provision within devolved competence

As currently drafted, UK Ministers' powers to make regulations under clauses 1 and 2 of the Bill could be used to make provision in policy areas which are the responsibility of Scottish or Welsh Ministers. The Scottish Government and Welsh Government acknowledge that there may be circumstances justifying amendments to laws in devolved areas being made on a UK-wide basis, but they consider that this should only be possible with the consent of the devolved administrations

Proposed amendments 1 and 2 would mean that UK Ministers would be required to secure the consent of the Scottish Ministers or the Welsh Ministers, before making provision which would be within devolved competence. Devolved Ministers would then be accountable to their legislatures for any decision to consent to the UK Ministers legislating on such a basis.

B. UK Government power to decide the duration of the power to implement international trade agreements: requirement for consultation with Scottish and Welsh Ministers before exercising the power

The Bill allows the Secretary of State to decide how long the power to implement international agreements is to last. These decisions will determine how long devolved Ministers have to use their implementing powers, and for how long the Secretary of State can use the implementing power in devolved areas (as well as in non-devolved areas). The Scottish and Welsh Governments consequently believe that the views of the devolved administrations should have to be taken into account in decisions about the duration of the implementing powers.

Proposed amendment 3 would mean that the Secretary of State would be required to consult the Scottish Ministers and the Welsh Ministers before deciding whether and how to adjust the time period during which the implementing powers can be used.

C. Scottish Ministers' and Welsh Ministers' implementation powers: removal of restrictions

The Bill places a number of restrictions on devolved Ministers' use of the implementation powers in Part 1 of the Bill which are not placed on UK Ministers. We believe as a matter of principle that devolved Ministers should have the same powers as UK Ministers in respect of matters falling within devolved areas.

Proposed amendment 4 would remove the restrictions prohibiting the Scottish and Welsh Ministers' from (a) modifying directly applicable EU law which the Withdrawal Bill incorporates into UK law; and (b) from making provision that is inconsistent with certain kinds of modifications made to that body of law by the UK Parliament or the UK Government. This would bring Scottish and Welsh Ministers' powers into line with the powers being given to UK Ministers in devolved areas.

Proposed amendment 5 would remove the requirement for Scottish and Welsh Ministers to obtain the consent of a UK Minister before using the implementing power

to make regulations that would come into force before exit day, or that would involve quota arrangements. This amendment would require devolved Ministers to consult UK Ministers instead.

D. Trade Remedies Authority: requirement for Scottish and Welsh Ministers' consent to appointment of a non-executive member

The Bill establishes a new Trade Remedies Authority that will ultimately be tasked with investigating claims of dumping or subsidy in the UK, and imposing and enforcing trade remedy measures; in doing so, it will act in the interests of the UK as a whole. Scottish and Welsh Ministers believe that its credence and independence will be demonstrably enhanced by giving devolved administrations an appropriate role in relation to the Authority.

Proposed amendment 6 would require the Secretary of State to obtain Scottish Ministers' and Welsh Ministers' consent to the appointment of a non-executive member to the Board of the Authority.

Eitem 4.5

Draft statement

Interparliamentary Forum on Brexit

2nd meeting, 18 January 2018

“Today, we the Chairs, Conveners and representatives of Committees scrutinising Brexit-related issues in the Scottish Parliament, National Assembly for Wales, House of Commons and House of Lords, met at the House of Lords for the second meeting of the Interparliamentary Forum on Brexit, to discuss the process of the UK’s withdrawal from the European Union, and our collective scrutiny of that process. Officials from the Northern Ireland Assembly were in attendance as observers.

“The Interparliamentary Forum was established out of recognition that, notwithstanding our different political positions and perspectives on Brexit, as parliamentarians in our respective legislatures we face common challenges: seeking to ensure the best outcome for the people and communities we represent; holding the UK and devolved governments to account for their role in the process; scrutinising the effects of the European Union (Withdrawal) Bill and related legislation, including the legislative consent process; understanding the implications of Brexit for the future of the devolution settlements; and seeking to determine the nature of the UK’s future relationship with the EU.

“As the European Union (Withdrawal) Bill completes its House of Commons stages, today’s meeting provided a timely opportunity for us to share information on the work that each of our Committees and legislatures is undertaking. We have focused in particular on the implications of Clause 11 of the Bill for the devolution settlements, and discussions on potential future UK-wide frameworks, and we recognise the strong views of members of the Scottish Parliament and National Assembly for Wales on this issue. We met Chloe Smith MP, Minister for the Constitution, Cabinet Office, and have made clear to her our various perspectives on these important questions. We urge the Government to take all of these points of view into account as the House of Lords begins its scrutiny of the legislation in the coming weeks.

“The Forum will meet again in March 2018, when we will again review the progress of the Brexit negotiations and the parallel domestic legislation.”

Mick Antoniw AM, Chair, National Assembly for Wales Constitutional and Legislative Affairs Committee
Claire Baker MSP, Deputy Convenor, Scottish Parliament Culture, Tourism, Europe and External Relations Committee
Lord Blencathra, Chair, House of Lords Delegated Powers and Regulatory Reform Committee
Sir William Cash MP, Chair, House of Commons European Scrutiny Committee
Bruce Crawford MSP, Convener, Scottish Parliament Finance and Constitution Committee
Chris Davies MP, member, House of Commons Welsh Affairs Committee
Richard Graham MP, member, House of Commons Exiting the EU Committee
Lord Jay of Ewelme, member, House of Lords European Union Committee and Chair, House of Lords EU Home Affairs Sub-Committee
Bernard Jenkin MP, Chair, House of Commons Public Administration and Constitutional Affairs Committee
Joan McAlpine MSP, Convener, Scottish Parliament Culture, Tourism, Europe and External Relations Committee
Lord McFall of Alcluith, Senior Deputy Speaker, House of Lords
Stuart McMillan MSP, Deputy Convenor, Scottish Parliament Delegated Powers and Law Reform Committee
David Rees AM, Chair, National Assembly for Wales External Affairs and Additional Legislation Committee
Graham Simpson MSP, Convener, Scottish Parliament Delegated Powers and Law Reform Committee
Baroness Taylor of Bolton, Chair, House of Lords Constitution Committee
Adam Tomkins MSP, Deputy Convenor, Scottish Parliament Finance and Constitution Committee
Lord Trefgarne, Chair, House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon